



HM Government

# **MCA & LPS** – Rhestr termau

<b>Tymor</b>	<b>Diffiniad</b>
<b>Gweithredoedd mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth</b>	Tasgau a wneir gan ofalwyr, staff gofal iechyd neu ofal gymdeithasol sy'n cynnwys gofal personol, gofal iechyd neu driniaeth feddygol pobl sydd â phrinder gallu i gydsynio iddynt - y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel "gweithredoedd adran 5".
<b>Gweithdrefn diogelu oedolion</b>	Gweithdrefnau a luniwyd gan awdurdodau lleol, ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill, i ymchwilio a delio â honiadau o niweidio (gan gynnwys cam-drin neu gamdriniaeth) oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac i roi mesurau diogelwch ar waith i'w hamddiffyn rhag niwed.
<b>Penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth</b>	Penderfyniad i wrthod triniaeth benodol a wnaed ymlaen llaw gan unigolyn sydd â'r gallu i wneud hynny. Yna bydd y penderfyniad hwn yn berthnasol yn y dyfodol pan fydd gan yr unigolyn hwnnw brinder gallu i gydsynio i, neu wrthod, y driniaeth benodol. Nodir hyn yn adran 24(1) y Ddeddf. Mae rheolau penodol yn berthnasol i benderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd.
<b>Eiriolaeth</b>	Mae eiriolaeth yn ffordd o gefnogi unigolyn i sicrhau bod eu barn yn cael eu hystyried a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynrychioli hyd yn oed os na fydd yr unigolyn yn gallu mynegi'u dymuniadau neu'u teimladau neu'u credoau.
<b>Asiant</b>	Unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran unigolyn arall o dan gyfraith asiantaeth. Mae atwrneiod a benodir o dan LPA neu EPA yn asiantiaid ac ystyrir dirprwyon a benodir gan y llys yn asiantiaid ac mae'n rhaid iddynt gyflawni dyletswyddau penodol fel asiantiaid.

<b>Swyddog penodedig</b>	Unigolyn a benodir o dan Reoliadau Nawdd Cymdeithasol i hawlio a chasglu budd-daliadau neu bensynau nawdd cymdeithasol ar ran rhywun sydd â phrinder gallu i reoli'u budd-daliadau eu hunain. Caniateir i swyddog penodedig ddefnyddio'r arian a hawlir i fodloni anghenion yr unigolyn.
<b>Corff priodol</b>	Pwyllgor a sefydlir i gynghori ar, neu ar faterion sy'n cynnwys, moeseg ymchwil ymwthiol mewn perthynas â phobl sydd â phrinder gallu i gydsynio iddo, ac a gydnabyddir at y dibenion hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn Lloegr) neu'r Cynulliad Cenedlaethol i Gymru (yng Nghymru).
<b>Person Priodol</b>	Rôl wirfoddol, wedi'i chynllunio i ganiatáu i ffrindiau ac aelodau o'r teulu'n bennaf ddarparu cynrychiolaeth a chymorth i'r unigolyn sy'n cael ei gyfeirio at y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid neu sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad.
<b>Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP)</b>	Rôl arbenigol sy'n darparu goruchwyliaeth uwch i achosion LPS sydd ei hangen fwyaf. Yn yr achosion hyn, bydd AMCP yn pennu a yw'r amodau awdurdodi sy'n ofynnol i awdurdodi amddifadu o ryddid yn cael eu bodloni. Mewn rhai achosion, byddant hefyd yn cynnal adolygiadau.
<b>Trefniadau</b>	Y trefniadau sy'n galluogi i ofal neu driniaeth yr unigolyn ddigwydd ac sy'n arwain at amddifadedd o ryddid, sy'n cael eu cynnig neu sy'n cael eu cyflawni. Gallant gynnwys lle mae'r unigolyn yn preswyllo, pa ofal neu driniaeth maent yn derbyn, neu'r dull a'r ffordd maent yn cael eu cludo rhwng lleoedd penodol.
<b>Verb: Asesu a Phenderfynu Noun: Asesiad a Phenderfyniad</b>	Mae'n rhaid cwblhau a chofnodi tri asesiad o dan LPS: asesiad meddygol, asesiad ar alluedd ac asesiad ar angenrheidrwydd a chymesuredd. Penderfyniad yw pan wneir penderfyniad ynghylch pob un o'r tri asesiad y mae'r unigolyn yn bodloni'r amod awdurdodi perthnasol.
<b>Atwrnal</b>	Rhywun a benodir o dan naill ai Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus (EPA), sydd â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau o fewn cwmpas eu hawdurdod ar ran yr unigolyn (y rhoddwr) a wnaeth yr Atwrneiaeth.

<b>Verb: Awdurdodi</b> <b>Noun: Awdurdodiad</b>	Mae awdurdodiad yn rhoi awdurdod cyfreithiol i amddifadu unigolyn o'i ryddid. Rhoddir awdurdodiad gan y Corff Cyfrifol os yw'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer gofal a thriniaeth unigolyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid a bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni.
<b>Amodau awdurdodiad</b>	Yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall Corff Cyfrifol awdurdodi'r trefniadau a gynigir. Er mwyn pennu a yw'r amodau'n cael eu bodloni, mae'n rhaid i dri asesiad a phenderfyniad gael eu cwblhau.
<b>Cofnod awdurdodiadau</b>	Cofnod sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, yn nodi'r holl drefniadau a awdurdodwyd gan y Corff Cyfrifol ar yr adeg honno a materion eraill megis y rhaglen ar gyfer adolygu'r awdurdodiad.
<b>Penderfyniad er Budd Pennaf</b>	Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir, neu unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol fod er budd pennaf i'r unigolyn.  Nodir y camau i'w dilyn wrth ystyried budd pennaf rhywun yn adran 4 y Ddeddf, ac yn y rhestr wirio nad yw'n gynhwysfawr yn y Cod Ymarfer.
<b>Gallu</b>	Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Mae'r diffiniad cyfreithiol o unigolyn sydd â phrinder gallu wedi'i nodi yn adran 2 y Ddeddf.
<b>Asesiad a Phenderfyniad ar Alluedd</b>	Asesiad a phenderfyniad bod gan yr unigolyn brinder gallu i gydsynio i'r trefniadau a gynigir.
<b>Deddf Gofal 2014</b>	Deddf Gofal 2014 yw'r prif fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. O dan Ddeddf Gofal 2014, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad o unrhyw un yr ymddengys bod angen gofal a chefnogaeth arnynt, waeth beth yw eu cymhwysedd tebygol ar gyfer gofal a ariennir gan y wladwriaeth. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswyddau a phwerau i ddarparu gofal a chefnogaeth.

<b>Gweithiwr gofal</b>	Rhywun a gyflogir i ddarparu gofal personol i bobl sydd ag angen help oherwydd salwch, oed neu anabledd. Gallent gael eu cyflogi er enghraifft gan yr unigolyn ei hun, gan rywun sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn neu gan asiantaeth gofal.
<b>Gofalwr</b>	Rhywun sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal wrth ofalu am ffrind neu gymydog sydd ag angen cymorth oherwydd nam corfforol neu feddyliol neu salwch. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd gofalwr yn darparu cymorth yn rhinwedd contract neu fel gwaith gwirfoddol. Yn y ddogfen hon, mae rôl y gofalwr yn wahanol i rôl gweithiwr gofal proffesiynol.
<b>Deddf Plant 1989</b>	Deddf sy'n ymwneud â phlant a'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blant.
<b>Deddf Plant a Theuluoedd 2014</b>	Mae'r Ddeddf yn dwyn ynghyd gwahanol feysydd o'r gyfraith sy'n effeithio ar blant, yn enwedig diogelu plant sy'n agored i niwed.
<b>Maethiad a Hydradiad wedi'i Gynorthwyo'n Glinigol</b>	Math o driniaeth feddygol i ddarparu maeth a hydradiad i gleifion nad ydynt yn gallu bwyta nac yfed. Mae'n cynnwys defnyddio tiwbiau i ddarparu maeth a hylifau, trwy drwyn, stumog neu wythien unigolyn.
<b>Verb: Ymgynghori Noun: Ymgynghoriad</b>	Mae'n ofynnol i'r Corff Cyfrifol ymgynghori â'r unigolyn ac unigolion penodol eraill. Prif bwrpas yr ymgynghoriad yw canfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch y trefniadau a gynigir.
<b>Ymgynghorai</b>	Unigolyn yr ymgynghorir ag ef, er enghraifft ynghylch cyfranogiad unigolyn sydd â phrinder gallu i gydsynio i'w cyfranogiad yn y prosiect ymchwil.

<b>Y Llys Gwarchod</b>	Mae'r Llys Gwarchod yn gwneud penderfyniadau ynghylch galluedd meddyliol a budd pennaf. Gall hyn gynnwys gwneud penderfyniadau ar gyfer ac ar ran oedolion a all fod â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain. Sefydlir y Llys Gwarchod o dan adran 45 y Ddeddf.
<b>Ymwelydd y Llys Gwarchod</b>	Rhywun a benodir i adrodd i'r Llys Gwarchod ynghylch sut mae atwrneiod neu ddirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau. Sefydlir Ymwelwyr y Llys Gwarchod o dan adran 61 y Ddeddf. Gallant hefyd gael eu cyfarwyddo gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymweld â rhoddwyr, atwrnai a dirprwyon o dan adran 58 (1) (d).
<b>Deddf Diogelu Data 2018</b>	Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn rheoli sut mae sefydliadau, busnesau neu'r llywodraeth yn defnyddio gwybodaeth bersonol unigolyn. Deddf Diogelu Data 2018 yw camau gweithredu'r DU y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae'n rhaid i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ddefnyddio data personol ddilyn rheolau caeth a elwir yn 'egwyddorion diogelu data' ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr wybodaeth: yn cael ei defnyddio'n deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw.
<b>Gwneuthurwr penderfyniad</b>	O dan y Ddeddf, efallai y bydd yn ofynnol i lawer o wahanol bobl wneud penderfyniad neu weithredu ar ran rhywun sydd â phrinder gallu i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Cyfeirir at yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad trwy gydol y Cod, fel y 'gwneuthurwr penderfyniad', a chyfrifoldeb y gwneuthurwr penderfyniad yw ystyried beth sydd er y budd pennaf i'r unigolyn sydd â phrinder gallu.
<b>Datganiad</b>	Math o orchymyn a wneir gan y Llys Gwarchod. Er enghraifft, gallai datganiad ddweud a oes gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniad penodol neu beidio, neu a fyddai gweithred benodol yn gyfreithlon ai peidio. Nodir pŵer y Llys i wneud datganiadau yn adran 15 y Ddeddf.
<b>Dirprwy</b>	Rhywun a benodir gan y Llys Gwarchod gydag awdurdod cyfreithiol parhaus fel y rhagnodir gan y Llys i wneud penderfyniadau ar ran unigolyn sydd â'r prinder gallu i wneud penderfyniadau penodol fel y nodir yn Adran 16 (2) y Ddeddf.

<b>Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd</b>	<p>Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn darparu mynediad at wybodaeth cofnodion troseddol. Mae'n galluogi sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy nodi ymgeiswyr a all fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n ymwneud â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.</p> <p>Mae'r DBS hefyd yn cynnal a chadw Rhestrau Gwahardd oedolion a phlant ac yn gwneud penderfyniadau ystyriol ynghylch a ddylid cynnwys unigolyn ar un neu'r ddwy restr hyn a'u gwahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd rheoledig.</p>
<b>Derbynnydd</b>	<p>Rhywun a benodir gan roddwr i fod yn atwrnai.</p>
<b>Rhodwr</b>	<p>Rhywun sy'n gwneud Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus.</p>
<b>Atwrneiaeth Barhaus</b>	<p>Atwrneiaeth a grëwyd o dan Ddeddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 yn penodi atwrnai i ddelio ag eiddo a materion personol y rhodwr. Mae EPAau yn parhau i weithredu o dan Atodlen 4 y Ddeddf.</p>
<b>Deddf Cydraddoldeb 2010</b>	<p>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas ehangach ar sail 'nodweddion gwarchoddedig' penodol (gan gynnwys oed ac anabledd).</p>
<b>Deddf Cydraddoldeb 2010 (Hawliau Anabledd)</b>	<p>At ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb, mae anabledd yn golygu nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol dydd i ddydd.</p>
<b>Adran Deulu'r Uchel Lys</b>	<p>Adran yr Uchel Lys sydd â'r awdurdodaeth i ddelio â phob mater priodasol a phartneriaeth sifil, anghydfodau teuluol, materion sy'n gysylltiedig â phlant a rhai anghydfodau ynghylch triniaeth feddygol.</p>

<b>Dyletswydd ymddiriedol</b>	Mae gan unrhyw un sy'n gweithredu o dan gyfraith asiantaeth y ddyletswydd hon. Yn y bôn, mae'n golygu bod rhaid i unrhyw benderfyniad a gymerir, neu weithred a wneir fel asiant (megis atwrnai neu ddirprwy) beidio â bod o fudd i'r asiant ond mae'n rhaid iddo fod o fudd i'r unigolyn y maent yn Gweithredu ar ei gyfer.
<b>Gwarcheidiaeth</b>	Trefniadau, a wnaed o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, i warcheidwad gael ei benodi ar gyfer unigolyn ag anhwylder meddwl i helpu i sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt yn y gymuned.
<b>Deddf Iechyd a gofal cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015</b>	Nod y Ddeddf yw gwella ansawdd gofal a chanlyniadau i gleifion ac er enghraifft, mae'n cynnwys darpariaethau ynghylch rhannu gwybodaeth a lleihau niwed mewn gofal.
<b>Deddf Hawliau Dynol 1998</b>	Mae'r Ddeddf yn nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU yr hawl i'w cael. Mae'n ymgorffori'r rhan fwyaf o'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yng nghyfraith ddomestig y DU.
<b>Deddf Meinweoedd Dynol 2004</b>	Deddf i reoleiddio materion sy'n ymwneud â rhoi'r corff cyfan a chymryd, storio a defnyddio organau a meinweoedd dynol. Mae'n anghyfreithlon cadw meinwe gyda'r bwriad o'i DNA yn cael ei ddadansoddi, heb gydsyniad yr unigolyn y daeth y meinwe ohono.
<b>Camdriniaeth</b>	Mae adran 44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gysylltiedig â chamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol unigolyn sydd â phrinder gallu gan rywun sy'n gofalu amdanynt neu'n gweithredu ar eu rhan megis dirprwy neu atwrnai. Gall yr unigolyn hwnnw fod yn euog o gamdriniaeth os bydd wedi cam-drin rhywun yn fwriadol sydd â phrinder gallu neu wedi bod yn ddifeddwl ynghylch a oedd yn cam-drin yr unigolyn ai peidio. Nid oes gwahaniaeth a oedd yr ymddygiad yn debygol o achosi, neu wedi achosi, niwed neu anaf i iechyd y dioddefwr.
<b>Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EAGM)</b>	Mae IMCA yn darparu cynrychiolaeth a chymorth i unigolyn sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau penodol, pan nad oes gan yr unigolyn unrhyw un arall (heblaw staff cyflogedig) y byddai'n briodol ymgynghori â nhw er mwyn pennu'r hyn sydd er y budd pennaf i'r unigolyn. Nid yw'r un peth â gwasanaeth eirioli cyffredin.



<b>Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)</b>	Mae IMCA o dan yr LPS yn darparu cynrychiolaeth a chymorth i bobl sydd wedi'u cyfeirio at yr `LPS neu sy'n ddarostyngedig i'r LPS, ac nad oes ganddynt unigolyn priodol sy'n addas i ymgymryd â'r rôl hon.
<b>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth</b>	Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hyrwyddo didwylledd gan gyrrff cyhoeddus a phreifatrwydd data i unigolion. Mae gan yr ICO bwerau i sicrhau bod y deddfau ynghylch gwybodaeth, megis Deddf Diogelu Data 2018, yn cael eu dilyn.
<b>Atwrneiaeth Arhosol</b>	Mae Atwrneiaeth Arhosol a grëwyd o dan y Ddeddf (gweler Adran 9(1)) yn galluogi atwrnai (neu atwrneiod) i wneud penderfyniadau am les personol y rhoddwr (gan gynnwys gofal iechyd) a/neu eiddo a materion personol.
<b>Gweithdrefnau Amddiffyn Rhyddid (LPS)</b>	Mae'r system yng Nghymru a Lloegr lle mae trefniadau i ddarparu gofal a thriniaeth i unigolyn, sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid, yn cael eu hystyried ar gyfer pobl sydd â phrinder galluedd meddyliol perthnasol i gydsynio i'r trefniadau hynny.
<b>Triniaeth cynnal bywyd</b>	Unrhyw driniaeth feddygol y mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn credu'n rhesymol ei bod yn angenrheidiol i barhau neu gynnal bywyd unigolyn. Gweler Adran 4(10) y 'Ddeddf'.
<b>Cyfaill cyfreitha</b>	Unigolyn a benodir gan y llys i gynnal achos cyfreithiol ar ran, ac yn enw rhywun sydd â phrinder gallu i gynnal yr ymgyfreitha neu i gyfarwyddo cyfreithiwr eu hun.
<b>Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol</b>	Yn Lloegr, mae'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn sefydliad annibynnol sy'n ymchwilio i gwynion am gynghorau ac awdurdodau lleol ynghylch y rhan fwyaf o faterion cynghorau gan gynnwys tai, cynllunio, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.  Ar gyfer Cymru, gweler Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

<b>Makaton</b>	Rhaglen iaith sy'n defnyddio arwyddion a symbolau, ar gyfer addysgu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd i bobl ag anawsterau cyfathrebu a dysgu.
<b>Cyfyngu</b>	Proses ar gyfer datrys anghytundebau lle mae trydydd parti diduedd (y cyfyngwr) yn helpu pobl mewn anghydfod i ddod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.
<b>Asesiad a Phenderfyniad Meddygol</b>	Asesiad a phenderfyniad bod gan yr unigolyn anhwylder meddwl fel y'i diffinnir o dan yr MHA.
<b>Galluedd Meddyliol</b>	Y gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.
<b>Deddf Galluedd Meddyliol (MCA) 2005 'y Ddeddf'</b>	Mae'r MCA yn darparu fframwaith statudol yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer cefnogi pobl 16 oed a hŷn i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ochr yn ochr â nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, neu sydd â gallu ac eisiau gwneud trefniadau arnynt am adeg pan fyddant o bosibl yn brin o allu yn y dyfodol. Mae'n nodi pwy all wneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent fynd ati i wneud hyn. Daeth y Ddeddf i rym yn 2007.
<b>Anhwylder Meddyliol</b>	Diffinnir anhwylder meddwl yn yr MHA fel unrhyw anhwylder neu anabledd y meddwl.
<b>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</b>	Mae'n gosod dyletswyddau cyfreithiol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ynghylch asesu a thrin pobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaethau ar fynediad at eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

<b>Deddf Iechyd Meddwl 1983</b>	Deddf Iechyd Meddwl 1983 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag asesu, trin a hawliau pobl ag anhwylder iechyd meddwl. Gellir cadw pobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl at ddibenion asesu a/neu drin anhwylder meddwl.
<b>Cyrff Monitro</b>	Cyrff sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd ar weithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, er enghraifft y CQC (yn Lloegr).
<b>Asesiad a Phenderfyniad ar Angenrheidrwydd a Chymesuredd</b>	Asesiad a phenderfyniad bod y trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn yn ogystal ag yn gymesur mewn perthynas â thebygolrwydd a difrifoldeb y niwed hwn.
<b>Dyletswydd i Hysbysu</b>	Dyletswydd Cyrff Cyfrifol i hysbysu'r Cyrff Monitro yn rheolaidd am faterion penodol megis pryd y rhoddir awdurdodiadau a phryd y cawsant eu hadnewyddu neu y daethant i ben.
<b>Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus</b>	Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn swyddog a sefydlwyd o dan adran 57 y Ddeddf. Cefnogir y Gwarcheidwad Cyhoeddus gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n goruchwyllo dirprwyon, yn cadw cofrestr o ddirprwyon, Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus, ac yn ymchwilio i gwynion am atwrneiod neu ddirprwyon.
<b>Y Twrnai Swyddogol</b>	Mae'r Twrnai Swyddogol yn gweithredu fel cyfaill cyfreitha dewis olaf ac mewn rhai achosion twrnai, ar gyfer plant (heblaw'r rhai sy'n ddarostyngedig i achos lles plant) ac ar gyfer oedolion sydd â phrinder galluedd meddyliol.
<b>Cyfrifoldeb Rhieni</b>	Diffinnir cyfrifoldeb rhiant yn adran 3(1) Deddf Plant 1989 fel "yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd yn ôl y gyfraith gan riant plentyn mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo".
<b>Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd</b>	Mae'r Ombwdsmon yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch cwynion nad ydynt wedi'u datrys gan y GIG yn Lloegr ac adrannau llywodraeth y DU a sefydliadau cyhoeddus eraill.

<b>Penderfyniadau lles personol</b>	A oes unrhyw benderfyniadau ynghylch gofal iechyd unigolyn, megis ble maent yn byw, beth maent yn wisgo, beth maent yn fwyta, ac unrhyw beth sydd ei angen ar gyfer eu gofal a'u lles cyffredinol. Gall atwrneiod a dirprwyon sydd ag awdurdod priodol wneud penderfyniadau lles personol ar ran unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol.
<b>Adolygiad Cyn-awdurdodiad</b>	Mae adolygiad o'r wybodaeth y mae'r Corff Cyfrifol yn dibynnu arni yn penderfynu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni neu a yw'n rhesymol credu bod yr amodau awdurdodi'n cael eu bodloni. Mewn amgylchiadau penodol mae'n rhaid i'r adolygiad cyn-awdurdodi gael ei gynnal gan AMCP.
<b>Anhwylder Ymwybyddiaeth Estynedig Difrifol</b>	Cyflwr a achosir gan anaf trychinebus i'r ymennydd lle mae gan gleifion sydd mewn PPDofC ddiffyg ymwybyddiaeth barhaol a diwrthdro o'u hamgylchedd ac nid oes ganddynt y gallu i ryngweithio ar unrhyw lefel â'r rhai sydd o'u cwrpas.
<b>Eiddo a materion personol</b>	Unrhyw feddiannau sy'n eiddo i unigolyn (megis tŷ neu fflat, gemwaith neu feddiannau eraill), yr arian sydd ganddynt mewn incwm, cynilion neu fuddsoddiadau ac unrhyw wariant. Gall atwrneiod a dirprwyon sydd ag awdurdod priodol wneud penderfyniadau ynghylch eiddo a materion personol ar ran unigolyn sydd â'r prinder gallu perthnasol.
<b>Amddiffyniad rhag atebolrwydd</b>	Amddiffyniad cyfreithiol a roddir i unrhyw un sydd wedi gweithredu neu wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Ddeddf ac adran 5 y Ddeddf.
<b>Amddiffyniad rhag atebolrwydd (LPS)</b>	Amddiffyniad cyfreithiol a roddir i rywun sy'n cyflawni trefniadau o dan yr LPS Atwrneiaeth Arhosol neu'n cyflawni triniaeth cynnal bywyd neu weithred hanfodol o dan a.4B.
<b>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</b>	Corff annibynnol sy'n ymchwilio i gwynion ynghylch llywodraeth leol a sefydliadau'r GIG yng Nghymru, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghylch materion megis tai, cynllunio, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru.  Ar gyfer Lloegr, gweler Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol

<b>Derbynydd</b>	Rhywun a benodwyd gan y Llys Gwarchod blaenorol i reoli eiddo a materion personol unigolyn sydd â phrinder gallu i reoli eu materion eu hun. Mae derbynyddion presennol yn parhau fel dirprwyon gydag awdurdod cyfreithiol i ddelio ag eiddo a materion personol yr unigolyn.
<b>Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016</b>	Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.
<b>Verb: Adnewyddu Noun: Adnewyddiad</b>	Y broses o adnewyddu awdurdodiad yr LPS, a gynhelir pan ddaw diwedd y cyfnod awdurdodi i ben.
<b>Corff Cyfrifol</b>	Rôl benodol o dan yr LPS ar gyfer sefydliadau a enwir, i bennu a ddylid awdurdodi trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth unigolyn sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid. Gall cyrff cyfrifol gynnwys Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG, Awdurdod Lleol, neu Fwrdd Iechyd Lleol (yng Nghymru).
<b>Ataliad</b>	Gweler adran 6(4) y Ddeddf. Defnyddio neu fygrwth grym i helpu i gyflawni gweithred y mae'r unigolyn yn ei gwrthwynebu, neu gyfyngu ar ryddid symudiad yr unigolyn, a ydynt yn gwrthwynebu ai peidio. Gellir defnyddio ataliad yn unig pan fo angen amddiffyn yr unigolyn rhag niwed ac mae'n gymesur â'r risg o niwed.
<b>Verb: Adolygu Noun: Adolygiad</b>	Proses lle mae'r Corff Cyfrifol yn penderfynu'n bennaf a ddylai unigolyn barhau i fod yn ddarostyngedig i awdurdodiad yr LPS.

<b>Egwyddorion statudol</b>	<p>Nodir y pum egwyddor allweddol yn Adran 1 y Ddeddf. Fe'u lluniwyd i bwysleisio cysyniadau sylfaenol a gwerthoedd craidd y Ddeddf ac i ddarparu meincnod i arwain gwneuthurwyr penderfyniadau, gweithwyr proffesiynol a gofalwyr sy'n gweithredu o dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae'r egwyddorion yn gyffredinol yn berthnasol i'r holl gamau gweithredu a phenderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf.</p> <p>Pump egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddwl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhagdybio gallu</li> <li>• Cymorth i wneud penderfyniad</li> <li>• Penderfyniadau annoeth</li> <li>• Budd pennaf</li> </ul> <p>Yr opsiwn lleiaf cyfyngol.</p>
<b>Y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru) 2018</b>	<p>Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer y system statudol yng Nghymru i fodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc</p>
<b>Y Tribiwnlys Iechyd Meddwl</b>	<p>Mae'r tribiwnlys yn gorff barnwrol annibynnol sydd â'r pŵer i gyfarwyddo rhyddhau cleifion sy'n cael eu cadw neu o dan bŵer cymunedol Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.</p> <p>Yn Lloegr, y tribiwnlys yw'r tribiwnlys Haen gyntaf, ac yng Nghymru, y tribiwnlys yw'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.</p>
<b>Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</b>	<p>Nod y Ddeddf yw gwneud gofal a chymorth yn bersonol i anghenion pobl, gan eu helpu i fyw'r bywyd y maent yn ei ddymuno ac aros yn annibynnol am gyfnod hwy.</p>
<b>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau</b>	<p>Cytundeb rhyngwladol yw hwn sy'n nodi hawliau pobl anabl yn ogystal â'r rhwymedigaethau ar Lywodraeth y DU ac eraill i hyrwyddo, amddiffyn a sicrhau'r hawliau hynny.</p>

<b>Prawf gallu tri cham</b>	<p>Gan ddefnyddio adrannau 2 a 3 y Ddeddf i asesu a oes gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniad drostynt eu hunain ar yr adeg honno. Mae hyn yn cynnwys y prawf 3 cham canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. A yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad?</li> <li>2. Os nad yw, a oes nam neu aflonyddwch yng ngweithrediad meddwl neu ymennydd yr unigolyn?</li> <li>3. A yw anallu'r unigolyn i wneud y penderfyniad oherwydd y nam neu'r aflonyddwch?</li> </ol>
<b>Amrywiadau</b>	<p>Mân newidiadau i awdurdodiad a wneir fel rheol yn dilyn ymgynghoriad ac adolygiad.</p>
<b>Gweithred Hanfodol</b>	<p>Unrhyw weithred y mae'r unigolyn sy'n ei gwneud yn credu'n rhesymol ei bod yn angenrheidiol i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn.</p>
<b>Esgeuluso bwriadol</b>	<p>Mae'n drosedd o dan Adran 44 y Ddeddf Galluedd Meddwl i'r bobl ganlynol gam-drin neu esgeuluso'n fwriadol unigolyn sydd â phrinder gallu neu y credir yn rhesymol ei fod yn brin o allu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Unrhyw un sy'n gyfrifol am ofal yr unigolyn;</li> <li>▪ Atwrnai;</li> <li>▪ Dirprwy.</li> </ul>
<b>Datganiadau ysgrifenedig o ddymuniadau a theimladau</b>	<p>Mae adran 4(6) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai hynny sy'n gwneud penderfyniad er budd pennaf ystyried, 'dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol a'r presennol ac, yn benodol, unrhyw ddatganiad ysgrifenedig perthnasol a wnaed gan yr unigolyn pan oedd ganddo/ganddi allu ynghylch materion o'r fath megis y math o driniaeth feddygol y byddent yn dymuno ei derbyn yn achos salwch yn y dyfodol, ble byddai'n well ganddynt fyw, neu sut yr hoffent dderbyn gofal.</p> <p>Nid yw hyn yr un peth â phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth gan nad yw'n rhwymol.</p>